| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **17 CHWEFROR 2009** |
| **TEITL** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2009/10** |
| **ARGYMHELLIAD** | **MABWYSIADU'R STRATEGAETHAU AR GYFER 2009/10 A' R NEWIDIADAU I ATODLENNI RHEOLI'R TRYSORLYS** |
| **AWDUR** | **PENNAETH CYLLID** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD DYLAN EDWARDS** |

## Cyflwyniad a Chefndir

1 Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Polisi a phapurau ymarfer ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â holl weithrediadau'r trysorlys. Prif ofyniad y Côd yw i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a'r atodlen. Fe gymeradwywyd y rhain gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2004.

2 Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r Cyfarwyddyd yn nodi y gall awdurdodau gyfuno Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol i un adroddiad. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r syniad hwnnw ac, felly, mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol wedi ei chynnwys ym mharagraff 9.

3 Yn ôl y Côd a'r cyfarwyddyd mae gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Manylir ar y strategaeth ar gyfer 2009/10 yn **Atodiad A.**

4 Yn ychwanegol cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith ddarbodus newydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Roedd y trefniadau newydd, oedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2004, yn cyflwyno system lywodraethu newydd ar gyfer gwariant cyfalaf awdurdodau lleol, sy'n bennaf seiliedig ar hunan reolaeth. Datblygwyd y Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities ('y Cod') gan CIPFA fel cod ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd y penderfyniadau hyn. Amcanion allweddol y Cod yw sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Mynna'r Cod bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Mae'r strategaeth atodol **(Atodiad A)** felly yn ymgorffori'r dangosyddion yma, sy'n seiliedig ar y cynigion yn yr adroddiadau cyllideb refeniw a chyfalaf sydd wedi eu cynnwys mewn man arall ar y rhaglen.

5 Mae statws credyd llawer o'r sefydliadau sydd ar restr o wrthbartion cymeradwy y gall y Cyngor fuddsoddi arian dros ben gyda hwy wedi'i israddio, tra mae gofynion teilyngdod credyd y Cyngor wedi'u tynhau. O ganlyniad, mae angen tynnu 13 o fanciau'r Deyrnas Unedig (sy'n cynnwys banciau fel Bradford & Bingley, Bristol & West a Heritable) o'r rhestr. Yn yr un modd, mae angen tynnu 4 cymdeithas adeiladu (unai oherwydd eu bod wedi uno gyda chymdeithas adeiladu arall, neu oherwydd nad oes ganddynt statws credyd), ac 11 banc tramor (sy'n cynnwys banciau fel Glitnir Banki yng Ngwlad yr Ia, a banciau Gweriniaeth yr Iwerddon) oddi ar y rhestr. Er mwyn ymestyn ein rhestr o wrthbartion erbyn 2009/10, rydym wedi ychwanegu un banc o'r Deyrnas Unedig (sef Standard Chartered) a 19 banc tramor (sy'n cynnwys banciau o wledydd sydd gan statws credyd sofren o AA+ neu uwch) at y rhestr.

O ganlyniad mae angen gwneud newidiadau i'r rhestr swyddogol o wrthbartion cymeradwy sydd yn Atodlenni Rheoli'r Trysorlys cyfredol y Cyngor. Nodir y newidiadau hyn yn **Atodiad C**, gyda'r ychwanegiadau mewn print trwm, y gwrthbartion sydd angen ei dileu mewn print italic, a'r sefyllfa flaenorol mewn cromfachau. Mae **Atodiad C** yn nodi cymdeithasau adeiladu a banciau (fel Ulster Bank a nifer fawr o'r cymdeithasau adeiladu) sydd ar hyn o bryd yn is na'r statws credyd gofynnol wedi eu hamlygu. Ni fyddwn yn defnyddio'r cymdeithasau adeiladu/banciau yma heblaw bod eu teilyngdod credyd yn gwella ac yn cyrraedd y statws credyd gofynnol, sef AA- (hir dymor), F1+ (byr dymor).

6 O'r 31ain o Fawrth 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithrediad y gyfundrefn Benthyca Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi eu cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) blynyddol.

7 Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLlR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Mae'r strategaeth atodol **(Atodiad A)** yn cynnwys y Datganiad DLlR Blynyddol ar gyfer 2009/10.

## Argymhelliad

**8. Gofynnir i'r Bwrdd argymell i'r Cyngor llawn 26 Chwefror fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2009/10 (Atodiad A) a'r newidiadau i Atodlenni Rheoli'r Trysorlys (Atodiadau B ac C).**

**ATODIAD A**

# DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2009/10.

## 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 a rheoliadau cefnogol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor 'dalu sylw' i'r Côd Darbodus ac i bennu Dangosyddion Darbodus ar gyfer y tair blynedd nesaf er mwyn sicrhau fod cynlluniau buddsoddiad cyfalaf y Cyngor yn fforddiadwy, gochelgar a chynaliadwy.

Mae'r Ddeddf, felly, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio strategaeth trysorlys ar gyfer benthyca a pharatoi Strategaeth Fuddsoddiad Flynyddol; bydd hyn yn llunio polisïau'r Cyngor ynghylch rheoli buddsoddiadau, ac yn rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd y buddsoddiadau hynny.

Mae'r strategaeth arfaethedig ar gyfer 2009/10, yng nghyswllt agweddau swyddogaeth rheoli'r trysorlys, sy'n seiliedig ar olwg gyfredol ar gyfraddau llog, wedi ei hychwanegu at ragolygon marchnad arweiniol a ddarparwyd gan ymgynghorydd trysorlys y Cyngor. Mae'r strategaeth yn ymdrin â:

- cyfyngiadau'r trysorlys sydd mewn lle er mwyn cyfyngu ar y risg i'r trysorlys a gweithgareddau'r Cyngor;
- Dangosyddion Darbodus;
- sefyllfa gyfredol portffolio rheoli'r trysorlys;
- gofynion benthyca;
- y rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog;
- y strategaeth fenthyca;
- aildrefnu dyledion;
- y strategaeth fuddsoddi blynyddol
- y strategaeth DLlR
- unrhyw faterion trysorlys anghyffredin eraill

Mae'n ofyniad statudol o dan Adran 33 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'r Cyngor baratoi cyllideb fantoledig. Yn arbennig, mae Adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyfrifo yr hyn y bydd ei angen yn y gyllideb ymhob blwyddyn ariannol gan gynnwys costau refeniw sy'n ganlyniad i benderfyniadau ariannu cyfalaf. Golyga hyn y dylid cyfyngu gwariant cyfalaf i lefel ble y cyfyngir y cynnydd mewn taliadau refeniw i lefel sydd yn fforddiadwy i'r Cyngor yn dilyn:-

- Cynnydd mewn cyfraddau llog a achosir gan gynnydd mewn benthyca er mwyn ariannu gwariant cyfalaf ychwanegol, ac
- Unrhyw gynnydd mewn costau rhedeg prosiectau cyfalaf newydd

yn gyfynedig i lefel fforddiadwy i'r Cyngor.

## 2. Cyfyngiadau'r Trysorlys ar gyfer 2009/10 i 2011/12

Mae'n ddyletswydd statudol yn Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a rheoliadau cefnogol, i bennu ac adolygu faint y gall y Cyngor fforddio ei fenthyca. Cyfeirir at y swm hwn fel "Terfyn Benthyca awdurdodedig".

Mae'n rhaid i'r Cyngor dalu sylw i'r Côd Darbodus wrth lunio'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau fod cyfanswm buddsoddiad cyfalaf yn aros o fewn cyfyngiadau cynaliadwy, ac yn arbennig, fod yr effaith ar ddyfodol lefelau treth cyngor a rhent cyngor yn 'dderbyniol'.

Er mai Terfyn Benthyca Awdurdodedig yw'r term a bennwyd, gellir ariannu cynlluniau cyfalaf wrth fenthyca'n allanol ac wrth ddefnyddio mathau eraill o rwymedigaethau, megis trefniadau credyd. Bwriedir pennu'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig, ar sail dreigl, ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol.

## 3. Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2009/10 – 2011/12

Mae'r dangosyddion darbodus a ganlyn (yn nhabl 2 isod) yn berthnasol at ddibenion pennu strategaeth gyfun i reoli'r trysorlys.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor hefyd nodi a yw wedi mabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys. Mabwysiadwyd hyn gan y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2004.

| **DANGOSYDD DARBODUS** | **2007/08** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
|---|---|---|---|---|---|
| **(1). DANGOSYDDION DARBODUS CYFALAF** | **gwir** | **amcan** | **amcan** | **amcan** | **amcan** |
| **a)Gwariant Cyfalaf** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfa Gyffredinol | 32,033 | 46,803 | 34,943 | 24,129 | 22,556 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 6,430 | 6,668 | 6,450 | 6,450 | 6,450 |
| **CYFANSWM** | **38,463** | **53,471** | **41,393** | **30,579** | **29,006** |
| **b)Cymhareb costau ariannu i lif refeniw net** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 4.24% | 4.62% | 5.92% | 5.60% | 4.95% |
| CRT | 9.48% | 7.96% | 7.08% | 6.17% | 5.08% |
| **c)Gofyn Cyllido Cyfalaf fel ar 31 Mawrth** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfa Gyffredinol | 141,585 | 144,922 | 149,362 | 152,083 | 153,983 |
| CRT | 15,655 | 14,508 | 13,433 | 12,379 | 11,346 |
| **CYFANSWM** | **157,240** | **159,430** | **162,795** | **164,462** | **165,329** |
| **ch)Newid Blynyddol i'r Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfa Gyffredinol | 3,798 | 3,337 | 4,440 | 2,721 | 1,900 |
| CRT | (1,336) | (1,147) | (1,075) | (1,054) | (1,033) |
| **CYFANSWM** | **2,462** | **2,190** | **3,365** | **1,667** | **867** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **d)Gofyniad benthyca net fel ar 31 Mawrth** | **85,779** | **83,836** | **82,297** | **71,289** | **78,538** |
| **dd)Effaith ychwanegol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf.** | | | **£** | **£** | **£** |
| Cynnydd blynyddol yn nhreth y cyngor (band D)* | - | - | £1.78 | £9.87 | £22.12 |
| Cynnydd yng nghyfartaledd y rhent tai wythnosol. | - | - | £0 | £0 | £0 |

**Nodiadau ar y Dangosyddion Darbodus Cyfalaf:**

1a) Gwir wariant cyfalaf ar gyfer 2007/08 ac amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd dilynol yn seiliedig ar ffynonellau ariannu gweddol gadarn yn unig.
1b) Dangosir y gost net o ariannu dyled (sy'n cynnwys ad-daliadau llog a phrifswm llai'r llog a geir o fuddsoddiadau) fel canran o'r ariannu a dderbynnir gan y Llywodraeth a'r trethdalwyr.
1c) Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf yn adlewyrchu angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca i ddibenion cyfalaf.
1ch) Dangosir y newid blynyddol yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf.
1d) Mae'r Gofyniad benthyca net yn cynnwys yr oll fenthyciadau allanol llai'r buddsoddiadau (gan gynnwys arian parod) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er mwyn sicrhau mai at ddibenion cyfalaf yn unig y bydd y benthyca net dros y tymor canolig, rhaid sicrhau nad yw lefel y benthyca net yn uwch na chyfanswm y Gofyn Cyllido Cyfalaf (gweler 1c).
1dd) Amcangyfrif y gost ychwanegol o'r penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar y dreth cyngor.

| DANGOSYDD DARBODUS | 2007/08 | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|
| **(2). DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLI'R TRYSORLYS** | **gwir** | **amcan** | **amcan** | **amcan** | **Amcan** |
| **a)Terfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol -** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| benthyca | 170,000 | 165,000 | 165,000 | 165,000 | 165,000 |
| ymrwymiadau hirdymor eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 170,000 | 165,000 | 165,000 | 165,000 | 165,000 |
| **b)Ffîn Weithredol ar gyfer dyled allanol -** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| benthyca | 165,000 | 150,000 | 140,000 | 140,000 | 135,000 |
| ymrwymiadau hirdymor eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 165,000 | 150,000 | 140,000 | 140,000 | 135,000 |
| **c)Y terfyn uchaf ar gyfer y gyfradd llog sefydlog** | | | | | |
| Llog net ynghylch benthyca ar raddfa sefydlog | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **ch)Y terfyn uchaf ar gyfer y gyfradd llog gyfnewidiol** | | | | | |
| Llog net ynghylch benthyca ar raddfa gyfnewidiol | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% |
| **d)Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir am gyfnod tros flwyddyn.** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| (fesul dyddiad aeddfediad) | 20 | 20 | 40 | 40 | 40 |

**Nodiadau ar y Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys:**

2a) a b) Mae'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol yn adlewyrchu'r disgwyliadau mae'r awdurdod yn gosod ar eu hunain parthed benthyca allanol. Maent wedi eu selio ar y sefyllfa fwyaf tebygol, ochelgar ond nid 'gwaethaf posibl', gyda hefyd rhywfaint o le yn ychwanegol ('headroom') yn y Terfyn Awdurdodedig.
2c) a ch)Terfyn uchaf ar agoredrwydd yr awdurdod i newidiadau graddfeydd llog sefydlog a cyfnewidiol.
2d) Terfyn uchaf ar agoredrwydd yr awdurdod i fuddsoddiadau am gyfnodau hwy na 364 dydd.

| **Trefn Aeddfediad benthyca yn ystod 2009/10** | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf |
|---|---|---|
| o fewn 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 35% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 50% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 90% | 0% |

## 4. Sefyllfa Portffolio Rheolaeth Trysorlys Presennol y Cyngor

Mae amcangyfrif o sefyllfa portffolio trysorlys y Cyngor fel a ganlyn:

| | | **Prifswm £'000** | **Cyfradd Gyfartalog** |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar Fawrth 31 2009 | BBGC* | 121,739 | |
| Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar Fawrth 31 2009 | Marchnad | 16,200 | |
| **Cyfanswm Dyled fel ar 31 Mawrth 2009** | | **137,939** | **5.78%** |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau fel ar 31 Ionawr 2009** | | **77,190** | **3.58%** |

***BBGC – Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus**

## 5. Gofynion Benthyca

Mae'r gofynion benthyca yn cynnwys y potensial i gyllido cynlluniau o dan y Côd Darbodus.

| | **2007/08** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **gwir £'000** | **amcan £'000** | **amcan £'000** | **amcan £'000** | **amcan £'000** |
| Benthyca newydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trefniadau cyllido eraill* | 1,706 | 1,656 | 3,058 | 2,500 | 2,500 |
| Cyfnewid benthyciadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 1,706 | 1,656 | 3,058 | 2,500 | 2,500 |

*Bydd arfarniad opsiynau yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau fod prydlesu'n parhau i ddarparu manteision ariannol i'r Cyngor. Os nad yw hyn yn digwydd, mae angen sicrhau y gwneir darpariaeth addas ar gyfer hyn yn y rhaglen gyfalaf. Mae angen gwneud darpariaethau ar gyfer cynlluniau cyfalaf eraill hefyd. Oherwydd hyn gwnaed darpariaeth yn seiliedig ar amcanion cyfredol ar gyfer 2008/09 a 2009/10, a gwnaed darpariaeth isafswm o £2.5miliwn ar gyfer 2010/11 a 2011/12.

## 6. Rhagolygon Cyfraddau Llog.

Comisiynwyd 'Arlingclose' gan y Cyngor i ddarparu cyngor ar faterion rheoli'r trysorlys. Rhan o'u gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i ffurfio barn ar gyfraddau llog. Mae'r tabl a ganlyn yn dangos barn ganolog Arlingclose.

**Golwg Arlingclose: Rhagolwg Cyfradd Llog -** Rhagfyr 2008

| | Maw 2009 | Meh 2009 | Medi 2009 | Rhag 2009 | Maw 2010 | Meh 2010 | Medi 2010 | Rhag 2010 | Maw 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Sylfaenol** Risg gall godi | | | | | | | +0.25 | +0.25 | +0.25 |
| **Barn Ganolog** | **1.00** | **1.00** | **1.00** | **1.00** | **1.00** | **1.50** | **2.00** | **2.50** | **2.50** |
| Risg gall ostwng | -0.50 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.75 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| **LIBID Blwyddyn** Risg gall godi | | | | | | | | | |
| **Barn Ganolog** | **2.50** | **1.75** | **1.50** | **1.50** | **1.50** | **1.75** | **2.00** | **2.75** | **3.00** |
| Risg gall ostwng | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| **Gilt 5 Mlynedd** Risg gall godi | | | | | | | | | |
| **Barn Ganolog** | **3.00** | **2.75** | **2.50** | **2.00** | **2.00** | **2.50** | **2.75** | **3.00** | **4.00** |
| Risg gall ostwng | | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | | | |
| **Gilt 10 Mlynedd** Risg gall godi | | | | | | | | | |
| **Barn Ganolog** | **3.40** | **3.10** | **3.00** | **3.00** | **3.00** | **3.50** | **3.75** | **4.00** | **4.50** |
| Risg gall ostwng | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | | | |
| **Gilt 20 Mlynedd** Risg gall godi | | +0.10 | +0.10 | +0.10 | +0.10 | +0.10 | | | |
| **Barn Ganolog** | **4.00** | **4.00** | **4.00** | **4.25** | **4.25** | **4.50** | **4.75** | **4.75** | **4.75** |
| Risg gall ostwng | | -0.10 | -0.10 | -0.10 | -0.10 | -0.10 | | | |
| **Gilt 50 Mlynedd** Risg gall godi | +0.10 | +0.10 | +0.10 | +0.10 | +0.10 | +0.10 | +0.10 | +0.10 | +0.10 |
| **Barn Ganolog** | **3.90** | **3.90** | **4.00** | **4.00** | **4.25** | **4.50** | **4.50** | **4.50** | **4.50** |
| Risg gall ostwng | -0.10 | -0.10 | -0.10 | -0.10 | -0.10 | -0.10 | -0.10 | -0.10 | -0.10 |

Rhagolygon Arlingclose ar gyfer cyfraddau llog ydi bydd y gyfradd sylfaenol: -

- yn disgyn oherwydd y dirwasgiad byd-eang dwysedig
- gan ddechrau 2009 ar 1.50%, rhagwelir y bydd y gyfradd sylfaenol yn disgyn i 1.0% yn ystod Chwarter 1 2009
- rhagwelir y bydd yn parhau ar y lefel yma cyn codi yn araf yn Chwarter 2 2010, hyd nes y bydd yn cyrraedd 4.0% yn Chwarter 1 2012
- mae risg gall y gwir gyfraddau llog fod yn is na'r rhagolygon yma os bydd y dirwasgiad yn profi yn ddyfnach a mwy hirfaith nac sydd yn ddisgwyliedig ar hyn o bryd.

## 7. Y Strategaeth Fenthyca

Mae rhagolygon Arlingclose fel a ganlyn:

- Disgwylir i'r cyfanswm o gredyd sydd ar gael aros yn gyfyngedig, a bydd sefyllfaoedd credyd yn anodd.
- Chwyddiant: Disgwylir i'r lefelau uwch o chwyddiant ar nwyddau, bwyd ac ynni, a fu'n gyfrifol am roi gwasgfa fawr ar wir incwm yn 2008, i ostwng yn 2009. Disgwylir i Mynegai Pris Defnyddiwr (CPI), a gynyddodd i 5.2% yn 2008, i syrthio yn is na ffin isaf y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) o 1%.
- Marchnad lafur: Disgwylir i ddiweithdra, sy'n 6% yn barod, gynyddu ymhellach. Bydd pryderon am ddiweithdra yn cadw'r bargeinio am gyflogau a chwyddiant ar gyflogau i'r isafswm.
- Tai / Hyder Defnyddwyr: Gallai rhagolygon ynghylch ecwiti tai negyddol, a/neu ddiweithdra cynyddol a gwerthoedd asedau isel arwain at lefelau hyder isel pellach.
- Twf: Bydd yr ymdrech i ostwng dyledion enfawr yn taro gweithgarwch a thwf economaidd yn y DU, UDA ac Ewrop. Mae'r rhagolygon am dwf yn parhau'n wael ar gyfer llawer o 2009. Rhagwelir y bydd gwerth asedau yn gostwng ymhellach, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â nwyddau a thai.
- Cyfraddau llog / Polisïau banc canolog: Er mwyn osgoi datchwyddiant ac i liniaru rhywfaint ar ddifrifolwch economi sy'n arafu, bydd y Bancwyr Canolog yn fwy parod i gefnogi graddfeydd llog annaturiol o isel a/neu ryw fath o liniaru meintiol (h.y. defnyddio dulliau mwy anghonfensiynol megis ehangu mantolen y banc canolog a chwistrellu arian i mewn i'r economi).

Amgylchiadau'r Farchnad ac Anweddolrwydd:

- Mae anweddolrwydd y farchnad yn parhau yn uchel, gyda'r awch am risg yn isel; disgwylir i'r farchnad barhau mewn modd 'cynnal cyfalaf' hyd at ddechrau buan 2009. Er bod cyfradd LIBOR yn disgyn, mae'r bwlch rhwng cyfraddau llog swyddogol a marchnad yn debygol o aros yn sylweddol am rhai misoedd i ddod.
- Mae'r dirywiad mewn arian cyhoeddus - drwy'r gost o gefnogi'r system ariannol ac hefyd wrth i'r dirwasgiad daro llif refeniw'r llywodraeth - a'r diffyg yn y gyllideb yn mynd i ymofyn dyroddiad 'gilt' arwyddocaol yn 2009. Disgwylir i'r gorgyflenwad yma wthio cynnyrch (yield) 'gilt' hir dymor yn uwch, er ddim yn ormodol. Mae cynnyrch (yield) 'gilt' byr dymor yn debygol o ostwng wrth i gyfraddau polisi swyddogol disgyn.
- Mae dinistr mewn pris ecwiti am gadw'r farchnad stoc yn isel ac, er efallai bod rhai arwyddion petrus o sefydlogrwydd, mae'n rhy fuan i ddweud os yw'r farchnad wedi cyrraedd ei lefel isaf.
- Bydd y Cyngor yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio buddsoddiadau i ad-dalu peth o'i bortffolio dyledion, ble bo hynny'n briodol, gan gynnwys peidio gwneud benthyciadau newydd.

## 8. Aildrefnu Dyledion

Bu i gyflwyno gwahanol gyfraddau BBGC ar 1 Tachwedd 2007 ar gyfer benthyca newydd o gymharu ag ad-dalu dyled yn gynnar, a llunio taeniad rhwng y ddwy gyfradd (tua 40-50 o bwyntiau sail ar gyfer y cyfnodau hiraf gan leihau yn araf i 25-30 o bwyntiau sail ar gyfer benthyciadau byr), olygu fod aildrefnu dyled o BBGC i BBGC yn llawer llai dymunol nag yr oedd cyn y dyddiad hwnnw.

Ymhlith y rhesymau dros unrhyw aildrefnu bydd:

- arbed arian ar isafswm risg;
- helpu i gyflawni'r strategaeth a amlinellir ym mharagraff 7 uchod; a
- gwella cydbwysedd y portffolio (newid y proffil aeddfedu a/neu gydbwysedd yr ansefydlogrwydd).

Adroddir wrth yr Arweinydd Portffolio yn dilyn unrhyw weithrediad ynghylch aildrefnu, a bydd yntau yn adrodd yn ôl i'r bwrdd os ystyrir fod y mater yn ddigon sylweddol i wneud hynny.

## 9. Y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

### 9.1 Polisi Buddsoddi

Mae'r Cyngor yn talu sylw i Gyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd"), a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ("Côd RhT CIPFA) a Rheoliadau 2004 SI 1010(W.107). (Arian Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) (Addasiad) yr Awdurdodau Lleol.

Amcan polisi cyffredinol y Cyngor yw bod yn ddarbodus wrth fuddsoddi balansau'r trysorlys. Mae gwarantu cyfalaf a hylifedd buddsoddiadau yn hytrach na'u cynnyrch yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn anelu i wneud yr elw mwyaf posibl ar ei fuddsoddiadau yn gyfesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd.

Mae benthyca arian yn unswydd er mwyn ei fuddsoddi a gwneud elw yn anghyfreithlon ac ni fydd y Cyngor yma yn ymrwymo i weithgaredd o'r fath. Mae'r offerynnau buddsoddi sydd wedi eu dynodi ar gyfer eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol wedi eu rhestru isod o dan y categorïau buddsoddiadau;'Penodedig' a 'Amhenodedig'. Mae'r cyfyngiadau ar y gwrthbartïon fel a osodwyd allan yn Atodlenni Ymarferion Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

**Buddsoddiadau Penodedig:**
Defnyddir Sterling ar gyfer pob buddsoddiad o'r fath, **gydag aeddfediad o hyd at flwyddyn ar y mwyaf**, gan gyrraedd yr isafswm meini prawf credyd 'uchel' ble'n berthnasol.

| | Isafswm Meini Prawf Credyd 'Uchel' | Defnydd | Uchafswm Cyfnod |
|---|---|---|---|
| Cyfleuster Adneuon yr Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF) | Diogel iawn er nad ydi'r DMADF yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | 6 mis |
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda Llywodraeth Leol | Diogel iawn er nad ydi Awdurdodau Lleol yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | Blwyddyn |
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad llai na blwyddyn. | Isafswm tymor byr F1+ neu gyffelyb,<br>Isafswm tymor hir AA- neu gyffelyb. | Mewnol | Blwyddyn |

**Buddsoddiadau Amhenodedig:**

| | **Isafswm Meini Prawf Credyd** | **Defnydd** | **Uchafswm Cyfnod Aeddfedu** |
|---|---|---|---|
| Cronfeydd Arian Marchnad | AAAm | Mewnol a Rheolwyr Buddsoddi | Hylifedd Dyddiol |

Mae’r Cyngor yn defnyddio statws credyd er mwyn deillio eu rhestr gwrthbartion. Gall gynnwys statws credyd gan Fitch, Standard and Poors, Moody’s ac eraill. Bydd Arlingclose yn cysidro ffactorau eraill fel statws credyd unigol a chefnogol, cryfder arianol, “*credit default swaps (CDS)*”, statws credyd sofren, hawl i’r cynllun gwarant y Llywodraeth ac unrhyw wybodaeth gyhoeddus arall i gyfyngu ar y rhestr wrthbartion argymylliedig.

- Os yw statws credyd gwrthbarti yn cael ei israddio ac o ganlyniad ddim yn cyrraedd gofynion lleiafswm y Cyngor, bydd unrhyw ddefnydd arfaethedig o’r gwrthbarti hwnnw fel buddsoddiad newydd yn cael ei wrthod yn syth.
- Os fydd gwrthbarti yn cael ei osod ar statws negyddol (h.y. bod tebygolrwydd rhesymol bod y statws am newid a bod y newid hwnnw am fod yn negyddol) a’i fod ger gwaelod y statws credyd derbyniol ar gyfer buddsoddi ar y pryd, yna ni wneir unrhyw fuddsoddiadau pellach gyda’r corff hwnnw.

**9.2 Strategaeth Fuddsoddi**

Mae cyllid y Cyngor sydd yn cael ei reoli'n fewnol yn cael ei ariannu o lif-arian parod y Cyngor ac mae’r balans craidd ar gael ar gyfer ei fuddsoddi dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Yn unol â hynny, bydd buddsoddiadau yn cael eu gwneud wrth gyfeirio at y balans craidd, gofynion llif-arian a rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog tymor byr (h.y. cyfraddau ar gyfer buddsoddiadau hyd at flwyddyn).

Gan roi ystyriaeth i lefel balans arian parod y Cyngor dros y tair blynedd nesaf, yr angen am hylifedd, ei ymrwymiadau gwario, a darpariaeth ar gyfer cynlluniau wrth gefn, mae’r Cyngor wedi penderfynu y dylid cadw £40 miliwn o’i falans arian mewn buddsoddiadau heb fod yn benodedig (h.y. buddsoddiadau tymor hir gydag aeddfedrwydd hwy na blwyddyn) yn ystod y flwyddyn.

Mae **Atodiad B** yn dangos Meini Prawf presennol y Cyngor a dengys rhestr o wrthbartïon cymeradwy cyfredol ac arfaethedig yn **Atodiad C.**

Cychwynnodd y gyfradd sylfaenol ar 5.75% yn Rhagfyr 2007 ac yna disgyn 0.25% yn Chwefror ac Ebrill 2008, yna disgyn 0.5% yn Hydref, 1.5% yn Nhachwedd ac yna 1.0% yn Rhagfyr ac 0.5% yn Ionawr. Mae gostyngiad arall o 0.5% i’w ddisgwyl yn ystod Chw 1 2009. Gallai’r cyfraddau barhau i fod yn is na hyn ond disgwylir i’r cyfraddau barhau o gwmpas 1% ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/10 yn ei chyfanrwydd cyn dechrau cynyddu wedi hynny.

Gwneir buddsoddiadau er mwyn uchafu’r dychwelion tra bod y cyfraddau’n parhau ar lefelau isel iawn, ar ddechrau’r flwyddyn hon, bydd hyn yn golygu adneuon o hyd at flwyddyn, gan wneud adneuon byrrach hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn cymryd mantais o’r dychweliadau wrth i’r graddau llog gynyddu.

**9.3 Adroddiad Buddsoddiad Diwedd Blwyddyn.**

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y Cyngor yn adrodd ar ei weithgaredd fuddsoddi fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Trysorlys.

**10. Trosglwyddiad Gwirfoddol Graddfa Fawr (TGGF) o'r Stoc Tai**

Mae'r Trosglwyddiad Gwirfoddol Graddfa Fawr (TGGF) arfaethedig yn mynnu ystyriaeth i nifer o benderfyniadau cymhleth a hanfodol, a bydd angen cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y trafodion ariannol fydd yn digwydd. Efallai y bydd gwir dderbyniadau cyfalaf, neu daliad o ddyledion, trwy grant gan y llywodraeth. Ym mhob achos, bydd angen ystyried sefyllfa/strwythur y benthyciadau o'r cychwyn cyntaf, ynghyd â strategaeth sy'n ystyried y risg pe na fyddai'r trosglwyddiad yn mynd rhagddo. Yn dilyn pleidlais lwyddiannus, efallai y bydd angen mireinio'r strategaeth yn sgil yr wybodaeth pan fydd ar gael.

**11. Strategaeth Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR)**

Ar gyfer gwariant cyfalaf cyn y 1af o Ebrill 2008, neu wariant cyfalaf fydd gyda chefnogaeth yn y dyfodol, bydd y DLlR yn seiliedig ar 4% o'r balans agoriadol o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf llai addasiad ('A') (Opsiwn 1). Bwriad yr addasiad ('A') yw sicrhau niwtraliaeth rhwng y Gofyn Cyllido Cyfalaf a'r hen Nenfwd Credyd oedd yn arfer cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r DLlR cyn cyflwyniad y Gyfundrefn Ddarbodus ar 1af Ebrill 2004.

O'r 1af o Ebrill 2008, ar gyfer yr oll fenthyca heb gefnogaeth a weithredwyd drwy'r Cod Darbodus, bydd y polisi DLlR yn seiliedig ar y Dull Oes yr Ased (Opsiwn 3). Bydd y ddarpariaeth lleiafswm refeniw mewn rhandaliadau cyfartal dros oes yr ased. Bydd y tal cyntaf yn cael ei oedi hyd nes bydd yr ased yn weithredol.

Bydd cyfnodau oes asedau amcangyfrifedig yn cael eu pennu o dan bwerau dirprwyedig. Os nad yw gwariant yn creu ased, ond yn fath sydd yn amodol ar gyfnodau oes amcangyfrifedig sydd yn cael eu cyfeirio at yn yr arweiniad, bydd y cyfnodau yma yn gyffredinol yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor. Ond, mae'r Cyngor yn neilltuo'r hawl i bennu cyfnodau oes ddefnyddiol a DLlR darbodus mewn amgylchiadau eithriadol ble na fyddai argymhellion yr arweiniad yn briodol.

Gan na ellir cysylltu bob elfen o wariant cyfalaf y Cyngor i asedau unigol, bydd oes yr asedau yn cael eu hasesu ar y sail fwyaf addas fydd yn adlewyrchu'r cyfnod o fudd a ragwelir a ddeillir o'r gwariant. Yn ogystal, pa bynnag fath o wariant a wneir, bydd yn cael ei grwpio efo'i gilydd mewn dull fydd yn adlewyrchu natur yr elfen bennaf o wariant ac yr unig amser y rhennir y gwariant bydd mewn amgylchiadau ble mae dau neu fwy prif elfen gydag oes ddefnyddiol economaidd sylweddol gwahanol.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

**12. Buddsoddiadau ym Manciau Gwlad yr Iâ**

Mae gan Gyngor Gwynedd un buddsoddiad wedi ei rewi mewn banc Gwlad yr Iâ:
£4m ym Manc Heritable - is-gwmni y DU o Landsbanki. Roedd y buddsoddiad a'r llog o £88,083.29 i fod yn daladwy ar y 22 Ionawr 2009.

Ar y funud nid yw'n bosibl dweud gyda sicrwydd faint o'r buddsoddiad fydd Gwynedd yn ei adennill na phryd, ond gallwn ddweud y bydd y llog yn cael ei golli. Mae'r Gymdeithas Lywodraeth Leol yn cyd-gordio ymdrechion pob awdurdod yn y DU sydd gyda buddsoddiad yng Ngwlad yr Iâ. Fe allwn fod yn aros yn eithaf hir cyn cael gwybod faint fyddwn yn adennill a phryd. Byddwn yn hysbysu aelodau yn amserol am ddatblygiadau ynglŷn â'r ymdrechion.

**ATODIAD B**

## Rhan 1 – MEINI PRAWF AR GYFER CREDYD

## BUDDSODDIADAU TYMOR BYR

**Ar gyfer Banciau'r DU, Cymdeithasau Adeiladu a Banciau Tramor isafswm o:**

| Cyfnod | Statws Credyd Tymor Byr | Statws Credyd Tymor Hir | Uchafswm £'m |
|---|---|---|---|
| 1 Flwyddyn | F1+ neu gyffelyb | AA- neu gyffelyb | 15.0 |

**Nodyn:**

1) **Os nad oes gan wrthbarti statws Fitch, bydd statws Moody yn cael ei ddefnyddio.**
2) **Bydd statws credyd Sofren a ffactorau eraill yn cael eu cysidro pan fydd buddsoddiad yn cael ei wneud.**

## AWDURDODAU LLEOL Y DU

| Cyfnod | Uchafswm £'m |
|---|---|
| Blwyddyn | £10m |

## SWYDDFA RHEOLI DYLED

| Cyfnod | Uchafswm £'m |
|---|---|
| 6 mis | Anghyfyngedig |

## CRONFEYDD ARIAN MARCHNAD

| Cyfnod | Isafswm Statws Credyd | Uchafswm £'m |
|---|---|---|
| Hylifedd Dyddiol | AAAm | £5m fesul enw |

**ATODIAD C**

# RHESTR O WRTHBARTION CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD

| Banciau'r Deyrnas Unedig a'u Is-Gwmnïau | Uchafswm a Argymhellir £m | | Cyfyngiad ar Gyfnod y Buddsoddiad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2009/10 | 2008/09 | 2009/10 | 2008/09 |
| Abbey National Group:- | | | | |
| Abbey PLC. | 15.0 | (7.5) | Blwyddyn | (2 flynedd) |
| Abbey National Treasury Services PLC | 15.0 | (7.5) | Blwyddyn | (2 flynedd) |
| Alliance & Leicester PLC. | 15.0 | (7.5) | Blwyddyn | (2 flynedd) |
| ***Bradford & Bingley*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Bank of New York Europe Limited*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| Barclays Bank PLC | 15.0 | (10.0) | Blwyddyn | (3 mlynedd) |
| ***Bristol & West*** | ***0*** | ***(7.5)*** | ***0*** | ***(2 flynedd)*** |
| ***Citibank International PLC*** | ***0*** | ***(10.0)*** | ***0*** | ***(3 mlynedd)*** |
| ***Close Brothers Ltd.*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| Clydesdale Bank (fully owned by the National Australia Bank) | 15.0 | (7.5) | Blwyddyn | (2 flynedd) |
| ***Co-operative Bank Plc*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Credit Suisse International*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Egg Banking*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Heritable Bank*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| HSBC | 15.0 | (10.0) | Blwyddyn | (3 mlynedd) |
| Lloyds TSB Group:- | | | | |
| Lloyds TSB Bank PLC | 15.0 | (10.0) | Blwyddyn | (3 mlynedd) |
| Bank of Scotland | 15.0 | (10.0) | Blwyddyn | (3 mlynedd) |
| HBOS Treasury Services | 15.0 | 10.0 | Blwyddyn | (3 mlynedd) |
| ***Halifax Plc*** | ***0*** | ***(10.0)*** | ***0*** | ***(3 mlynedd)*** |
| ***Cheltenham & Gloucester PLC*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Singer and Friedlander Ltd.*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Standard Life Bank Ltd*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| **Standard Chartered Bank** | **15.0** | **(0.0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| The Royal Bank of Scotland Group:- | | | | |
| National Westminster Bank PLC | 15.0 | (10.0) | Blwyddyn | (3 mlynedd) |
| Royal Bank of Scotland | 15.0 | (10.0) | Blwyddyn | (3 mlynedd) |
| Ulster Bank Ltd | 15.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |

**NODYN:**

1) **Mae cyfyngiad o £15miliwn ar fanciau sydd yn perthyn i'r un grŵp o fanciau.**
2) **Mae'r Banciau sydd wedi eu lliwio gyda statws credyd is na'r gofynion ar hyn o bryd, ni fyddent yn cael eu defnyddio nes y byddent yn cyrraedd y statws credyd gofynnol.**

| Cymdeithasau Adeiladu y Deyrnas Unedig | Uchafswm a Argymhellir £m | | Cyfyngiad ar Gyfnod y Buddsoddiad | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009/10** | **2008/09** | **2009/10** | **2008/09** |
| Nationwide | 7.5 | (7.5) | Blwyddyn | (2 flynedd) |
| ***Derbyshire (rhan o Nationwide)*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Cheshire (rhan o Nationwide)*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Scarborough (rhan o Skipton)*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Dunfermline*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| Coventry | 5.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Leeds | 5.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Britannia | 5.0 | (7.5) | Blwyddyn | (2 flynedd) |
| Yorkshire | 5.0 | (7.5) | Blwyddyn | (2 flynedd) |
| Skipton | 5.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Principality | 5.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Chelsea | 5.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Norwich & Peterborough | 5.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |
| Newcastle | 5.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |
| West Bromwich | 5.0 | (5.0) | Blwyddyn | (1 flwyddyn) |

**NODYN:**

1) **Mae'r Cymdeithasau Adeiladau sydd wedi eu lliwio gyda statws credyd is na'r gofynion ar hyn o bryd, ni fyddent yn cael eu defnyddio nes y byddent yn cyrraedd y statws credyd gofynol.**

| Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig | Uchafswm a Argymhellir £m | | Cyfyngiad ar Gyfnod y Buddsoddiad | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009/10** | **2008/09** | **2009/10** | **2008/09** |
| Holl Awdurdodau Lleol y DU | 10.0 | (5.0) | Blwyddyn | (3 mis) |

| Gwlad | Banciau Tramor | Uchafswm a Argymhellir £m | | Cyfyngiad ar Gyfnod y Buddsoddiad | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2009/10 | 2008/09 | 2009/10 | 2008/09 |
| **Awstralia** | **Australia & New Zealand Banking Group Ltd** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Awstralia** | **Commonwealth Bank of Australia** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd | 10.0 | (10.0) | Blwyddyn | (3 mlynedd) |
| **Awstralia** | **Westpac Banking Corporation** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| Gwlad Belg | Dexia Bank | 10.0 | 10.0 | Blwyddyn | 3 mlynedd |
| **Canada** | **Bank of Nova Scotia** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Canada** | **Royal Bank of Canada** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Finland** | **Nordea Bank Finland plc** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| ***Ffrainc*** | ***Dexia Credit Local*** | ***0*** | ***(10.0)*** | ***0*** | ***(3 mlynedd)*** |
| **Frainc** | **BNP Paribas** | **10.0** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Ffrainc** | **CALYON Corporate & Investment Bank** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Ffrainc** | **Credit Industriel et Commercial** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Ffrainc** | **Credit Agricole** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Ffrainc** | **Societe Generale** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | 7.5 | 7.5 | Blwyddyn | (2 flynedd) |
| ***Yr Almaen*** | ***HSH Nordbank*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Gwlad yr Ia*** | ***Glitnir Banki*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Yr Eidal*** | ***Banca Monte dei Paschi di Siena*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Lwcsembwrg*** | ***Dexia Bank*** | ***0*** | ***(10.0)*** | ***0*** | ***(3 mlynedd)*** |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank International | 10.0 | 10.0 | Blwyddyn | 3 mlynedd |
| **Yr Iseldiroedd** | **ING Bank NV** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| ***Gwerin.Iwerddon*** | ***Allied Irish Banks PLC*** | ***0*** | ***(7.5)*** | ***0*** | ***(2 flynedd)*** |
| ***Gwerin.Iwerddon*** | ***Anglo Irish Bank Corporation*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Gwerin.Iwerddon*** | ***Bank of Ireland*** | ***0*** | ***(7.5)*** | ***0*** | ***(2 flynedd)*** |
| ***Gwerin.Iwerddon*** | ***DePfa Bank*** | ***0*** | ***(7.5)*** | ***0*** | ***(2 flynedd)*** |
| ***Gwerin.Iwerddon*** | ***Irish Life & Permanent plc*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| ***Gwerin.Iwerddon*** | ***Irish Intercontinental Bank*** | ***0*** | ***(5.0)*** | ***0*** | ***(1 flwyddyn)*** |
| **Singapore** | **DBS Bank Ltd** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Singapore** | **Oversea-Chinese Banking Corporation Ltd** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Sbaen** | **Confederacion Espanola de Cajas de Ahorros** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **Sweden** | **Svenska Handelsbanken AB** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **UDA** | **Bank of New York Mellon, The** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **UDA** | **JP Morgan Chase Bank NA** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |
| **UDA** | **Northern Trust Company** | **7.5** | **(0)** | **Blwyddyn** | **(0)** |

**NODYN:**

1) **Os bydd yn amhosib buddsoddi ein arian ar unrhyw ddiwrnod o fewn y cyfyngiadau uchod, bydd posib ar ganiatâd y Pennaeth Cyllid, i ragori ar gyfyngiadau'r Banciau Prydeinig sydd gyda statws credyd oAA-, F1+ drwy fuddsoddi mewn cyfrif dros nos, neu mewn cyfrifon adneuon galadwy.**

**A. Barn yr Aelod Lleol / Views of the Local Member**

**B. Barn y Swyddogion Statudol / Views of the Statutory Officers**

**1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-**

"Mae digwyddiadau diweddar yn y marchnadoedd arian wedi amlygu eto bwysigrwydd trefniadau rheoli ariannol cadarn a darbodus. Gwn bod sylw penodol wedi ei roi i gwestiynau ynglŷn â'r elfen o risg ynghlwm a buddsoddiadau wrth lunio'r Strategaeth hon a fydd wedi ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol cyn iddo ddod gerbron y Bwrdd."

*"Recent developments in the money markets have again highlighted the importance of secure and prudent financial management arrangements. I know that specific attention has been given to questions regarding the element of risk associated with investments whilst drawing up this Strategy, which will have been scrutinized by the Resources and Corporate Scrutiny Committee before being presented to the Board."*

**2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb / *Nothing to add regarding propriety*

**3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-**

Awdur yr adroddiad / *Author of the report*

**C. Papurau Cefndir / Background Papers**

**Ch. Goblygiadau Polisi / Policy Implications**